Morgan Llwyd, 1619–59
Llenor, bardd, cyfrinydd a diwygiwr Piwritanaidd

Fy enaid cyfod, cân i Dduw
ith wreiddyn byw ath ffynnon
yscwyd oddiwrthyt yr holl lwch
ar tristwch ar amheuon.

Dod heibio'r holl feddyliau gwael
a fynnent gael dy lethu
Nerth Duw a gododd Ghrist yn glau
ath gyfyd dithau fyny.
Allan o 'Hymn o Hiraeth am Baradwys', Morgan Llwyd

Ganwyd Morgan Llwyd yng Nghynfal, plwyf Maentwrog, Meirionnydd. Ychydig a wyddom am ei ddyddiau cynnar cyn i'w fam Mari fynd ag ef i Wrecsam yn bymtheg oed er mwyn mynychu'r ysgol ramadeg. Bu yno yn ystod 1634 a 1635. Ysgol eglwysig oedd hon ar y pryd lle rhoddid lle amlwg i astudio'r Ysgrythur, a fwy na thebyg bwriadai baratoi ar gyfer y gyfraith neu urddau eglwysig. Ni wyddom pam yr aeth mor bell gan fod yna ysgolion i'w cael yn agosach i'w gartref, ym Motwnnog, Bangor a Rhuthun. Aeth am gyfnod i Brampton Bryan, Llanfair Waterdine, sir Amwythig i gael rhagor o addysg. Pan oedd yn bymtheg oed fe gafodd dröedigaeth o dan bregethu Walter Cradoc a oedd yn gurad yn eglwys Wrecsam ar y pryd, a hyd y gwyddom, Caradoc oedd y cyntaf i droi meddwl Morgan Llwyd o ddifrif tuag at bethau ysbrydol. Yn ddiweddarach fe'i dilynodd ef i dde Cymru ac i Lanfaches lle y sefydlwyd yr eglwys Anghydffurfiol gyntaf ym 1639. Yno fe ddaeth o dan ddylanwad William Erbury ac fe ymddiddorai'r ddau yng ngweithiau Boehme.

Dychwelodd i Wrecsam ym 1647 ac ymgartrefu ym Mryn-y-ffynnon, gan ofalu am 'eglwys gynnull' y dref. Bu'n gweithio ym 1650 fel cymeradwywr gyda Deddf Taenu'r Efengyl yng Nghymru

ac fe lafuriodd yn ddygn fel pregethwr teithiol. Ysgrifennodd lawer o farddoniaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg, a rhoddodd nifer o Salmau ar gân yn ogystal â chyfansoddi emynau. Argraffodd hefyd nifer o bamffledi a llyfrau, ac yn eu plith yr oedd y clasur hwnnw, *Llyfr y Tri Aderyn*. Yr oedd yn arloeswr yn hanes llenyddiaeth Cymraeg. Dywed Derec Llwyd Morgan amdano, 'O blith mawrion, o ran amrywiaeth y dylanwad a fu arno, o ran cyffro'i rawd, o ran ystyfnigrwydd ffrwythlon ei unigolyddiaeth, ac o ran ei arwyddocâd yn ei ddydd, Saunders Lewis yw'r unig un sy'n cymharu ag ef. Ac ym mrwydr yr oesau, ni hoffwn orfod dewis rhyngddynt.'

Ym 1656 cymeradwywyd ef fel gweinidog i efengylu yn Wrecsam ac fe roddwyd y swm anrhydeddus o £100 iddo bob blwyddyn. Baich mawr Llwyd oedd gweld Cymru yn Gymru i Grist. Llafuriodd trwy ei waith ysgrifenedig i geisio cyrraedd pobl Cymru gyda'r Efengyl Gristnogol. Nid oes rhaid ond edrych ar deitlau ei lyfrau i sylweddoli hyn, e.e. *Llythyr i'r Cymry Cariadus*, *Gwaedd yng Nghymru yn wyneb pob cydwybod*, *Tri aderyn yn ymddiddan... neu Awydd i annerch y Cymru*, *Cyfarwyddyd i'r Cymru*. Gwladgarwr Cristnogol ydoedd, oedd am weld ei bobl yn ymateb i Efengyl Iesu Grist. Bu farw ym 1659 a rhoddwyd ei weddillion i orffwys yng ngardd gladdu Rhos-ddu, Wrecsam. Y mae cofgolofn iddo yno a ddadorchuddiwyd ym 1912.